# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 25 Hydref 2018

Amser: 09.05 - 12.10

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/5166

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Jayne Bryant AC<br>Mark Isherwood AC<br>Jenny Rathbone AC<br>David Melding AC<br>Leanne Wood AC |
| Tystion: | Jon Rae, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Steve Thomas, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Anthony Hunt, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Debbie Wilcox<br>Carys Lord, Cyngor Bro Morgannwg<br>Tom Jones |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc) |

| | |
|---|---|
| | Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jack Sargeant AC. Dirprwyodd David Melding AC ar ran Mark Isherwood AC ar gyfer eitemau 3 a 7 y cyfarfod.

## 2 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: sesiwn dystiolaeth 1

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Y Cynghorydd Debbie Wilcox, Arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Y Cynghorydd Anthony Hunt, Llefarydd Cyllid, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Steve Thomas, Prif Weithredwr, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Jon Rae, Cyfarwyddwr Adnoddau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Carys Lord, Pennaeth Cyllid, Cyngor Bro Morgannwg

2.2. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ddarparu:

- Nodyn ar ymagwedd awdurdodau lleol tuag at gynnydd yn y dreth gyngor, gan gynnwys yr amrywiadau mewn dulliau ar gyfer y sawl sydd â chronfeydd wrth gefn uwch neu is;
- Enghreifftiau o sut y mae llywodraeth leol yn ymgysylltu â'i holl weithlu gyda'r agenda iechyd ataliol;
- Nodyn ar gyfran y gofal cymdeithasol a ddarperir gan ddarparwyr preifat.

## 3 Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru (sector preifat): sesiwn dystiolaeth 6

3.1. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Tom Jones, Uwch-reolwr Prosiect, Viridis Real Estate.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr oddi wrth Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ynghylch yr ymchwiliad i rôl celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol

4.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu mewn perthynas â'r ymchwiliad i rôl celfyddydau a diwylliant wrth fynd i'r afael â thlodi ac allgáu cymdeithasol.

### 4.2 Llythyr oddi wrth y Gweinidog Tai ac Adfywio ynghylch diogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru

4.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai ac Adfywio mewn perthynas â diogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 6 Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

6.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 2.

## 7 Ymchwiliad i ddiogelwch tân mewn tyrau o fflatiau yng Nghymru (sector preifat): trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3

7.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 3.